

P-05-1159 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert Curtis, ar ôl casglu cyfanswm o 6,514 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Gofynnwch i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ac mae'n siŵr y byddent yn dweud wrthyh eu bod yn credu y cafodd yr arfer o osod maglau ar gyfer anifeiliaid gwyllt ei wahardd yn yr oesoedd tywyll, ond yn anffodus mae'r gwir yn dra wahanol. Y gwir yw bod miloedd o anifeiliaid gwyllt a domestig yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru bob blwyddyn gan fod pobl yn defnyddio maglau.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Ar hyn o bryd, dim ond cod arfer gorau sydd gennym o ran eu defnydd, er bod y trapiau'n wirioneddol greulon. Nid oes lle iddynt yn y Gymru fodern sy'n ystyriol o fywyd gwyllt.

Mae'r maglau yn wifrau tenau â dolen sydd wedi'u dylunio i ddal ac achosi marwolaeth i'r dioddefwr yn y pen draw. Mae'r ffordd y maen nhw wedi'u dylunio'n golygu eu bod yn aml iawn yn achosi i'r anifail sydd wedi'i ddal ynddynt golli aelodau neu dagu, a dioddef marwolaeth araf.

Mae awgrymu "Cod arfer gorau" yn gyfwerth â chael "Cod arfer gorau" ar gyfer defnyddio'r gadair drydan. Mae'r ddau yn greulon ac yn annynol yn eu hanfod.

Mae hefyd yn anodd iawn gorfodi'r rheoliadau ynglŷn â gosod maglau, sy'n digwydd yn bennaf ar dir preifat mewn lleoliadau anghysbell.

Ar adeg pan yr ydym yn ceisio ailgyflwyno llawer o rywogaethau a gollwyd ers amser maith (oherwydd erledigaeth a hela anwybodus yn y gorffennol), fel bele'r coed, gwiwerod coch, ceirw, dyfrgwn a hyd yn oed afancod, mae

dyluniad anwahaniaethol y maglau yn golygu y bydd llawer o'r rhywogaethau gwarchodedig hyn yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn y pen draw.

Mae'r trapiau anwahaniaethol hyn hefyd yn fygythiad gwirioneddol ac annerbyniol i'n cathod a chŵn anwes teuluol. Gwnewch Gymru'n rhydd rhag maglau!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru